

## Bwrdd yr Ymddiriedolion

07 Mai 2021

Cyfarfod Rhithwir

10.00 – 13.00

**SESIWN AGORED: 10.00 – 13.00**

### Presennol:

### Aelodau:

Meri Huws (Llywydd dros-dro a Chadeirydd)  
Eleri Twynog Humphries  
Carl Williams  
Mike Cavanagh  
Anwen Jones  
Elaine Treharne  
Janet Wademan

Lee Yale-Helms (Trysorydd)  
Gwenllian Lansdown Davies  
Quentin Howard  
Elin Royles  
Susan Davies  
Lydia Rumsey  
David Hay

### Tîm Gweithredol:

Pedr ap Llwyd  
David Michael  
Owain Roberts

Prif Weithredwr a Llyfrgellydd  
Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd  
Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd

### Staff eraill:

Annwen Isaac  
Emyr Phillips  
Illtud Daniel  
Rhian Evans  
Carol Edwards

Rheolwr Adnoddau Dynol  
Pennaeth Cyllid a Menter  
Pennaeth TGCh (ar gyfer eitem 2.3)  
Uwch Swyddog Gweithredol  
Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc y Bwrdd

### Sylwedyddion:

Catrin Hughes  
Nia Dafydd  
Peter Florence  
Hannah Lindsay

CyMAAL  
Cyngor Partneriaeth

## **1.1 Croeso a Sylwadau Agoriadol gan y Llywydd**

Croesawodd y Llywydd bawb i'r cyfarfod ac yn arbennig yr Ymddiriedolion hynny oedd yn mynychu eu cyfarfod cyntaf o'r Bwrdd. .

## **1.2 Ymddiheuriadau**

Dim ymddiheuriadau i'w nodi.

## **1.3 Datgan Buddiannau**

Datganodd Meri Huws ei bod yn aelod o Gyngor Prifysgol Aberystwyth, Cyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, aelod o Fwrdd VTCT ac o Fwrdd Shelter Cymru.

Datganodd Eleri Twynog Humphries ei bod yn ymwneud â'r Wyl Hanes Cymru i Blant, sy'n cael ei chefnogi gan Adran Addysg y Llyfrgell Genedlaethol.

Datganodd Elin Royles ei bod yn aelod o staff cyflogedig Prifysgol Aberystwyth, a bod ei gŵr yn gweithio i S4C.

Datganodd Anwen Jones ei bod yn aelod o staff cyflogedig Prifysgol Aberystwyth.

Datganodd Susan Davies ei bod yn ymgynghorydd gyda Chronfa Treftadaeth Genedlaethol y Loteri yng Nghymru, yn gynrychiolydd ar Grŵp Addysg mewn Amgueddfeydd Cymru, ac yn rhedeg ymgynghoriaeth annibynnol yn y celfyddydau a threftadaeth, sy'n ymwneud â phrosiect mentora tîm o staff iau'r Amgueddfa Genedlaethol.

Datganodd David Hay ei fod yn Gyfarwyddwr o Archif Sainsbury.

Datganodd Janet Wademan ei bod yn aelod annibynnol o Gyngor Prifysgol Caerdydd.

Datganodd David Michael ei fod yn aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio Cronfa Treftadaeth y Loteri.

Datganodd Pedr ap Llwyd ei fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

## **1.4 Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd 26 Mawrth 2021 a thrafod materion yn codi**

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod agored 26 Mawrth fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd ac nid oedd unrhyw faterion yn codi nad oedd ar yr agenda.

### **1.4.1. Cofnodion cyfarfod caeedig 26 Mawrth 2021**

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod caeedig 26 Mawrth 2021 fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

## **1.4.2 Pwyntiau Gweithredu o Gyfarfod 26 Mawrth 2021**

2.1 *Adroddiad Cynnydd Pennaeth Ystadau* – cylchredwyd fideo o'r adeilad i'r Ymddiriedolion newydd

2.5 *Llythyr Amodau Llywodraeth Cymru* – anfonwyd ymateb y Llyfrgell at Lywodraeth Cymru a bydd yn cael ei rannu gyda'r Ymddiriedolion yn dilyn y cyfarfod..

## **Adran 2 Materion sydd angen trafodaeth a phenderfyniad**

### **2.1 Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil**

Trafodwyd y Cynllun a chafwyd sylwadau gwerthfawr gan yr Aelodau yn enwedig yng nghydestun y berthynas rhwng y cynllun hwn a'r Cynllun Strategol, *Llyfrgell i Gymru a'r Byd*. Y Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad fydd yn craffu cynnydd y Cynllun.

### **2.2 Cynllun Gweithredu Drafft Strategaeth 2021 - 2026**

Cyflwynwyd drafft cynnar o'r Cynllun Gweithredu a chafwyd sylwadau gwerthfawr gan yr Aelodau. Roedd yr Aelodau'n falch o weld colofn wedi ei chynnwys, yn dilyn awgrym a wnaed gan y Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad, yn nodi ystyriaethau'n gysylltiedig ag argymhellion yr Adolygiad Teilwredig a llythyr amodau Llywodraeth Cymru.

Nodwyd bod llawer eto o fanylion i'w hychwanegu gan gynnwys amlygu meysydd blaenoriaeth a bod trafodaethau'n digwydd ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru ynghylch dangosyddion cyflawni.

Bydd y Tîm Gweithredol yn parhau i ddatblygu'r cynllun ar sail y sylwadau a fynegwyd a chyflwyno drafft pellach ohono i gyfarfod nesaf y Bwrdd ar 23 Gorffennaf. Ni fydd y cynllun yn derfynol hyd nes y byddwn wedi derbyn ac ystyried Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru.

### **2.3 Adolygiad Teilwredig**

#### **2.3.1 Costau Cynllun Gweithredu'r Adolygiad Teilwredig**

Roedd yr Ymddiriedolion yn barod wedi cytuno mewn egwyddor i gyfeiriad gweithredu'r argymhellion ond yn anfodlon rhyddhau'r cyllid hyd nes y byddai'r Tîm Gweithredol yn darparu dadansoddiad manwl o'r gwariant. Felly, croesawyd y dadansoddiad a gyflwynwyd heddiw.

Yn ogystal â'r papurau a oedd wedi'u dosbarthu i'r Aelodau, roedd adendwm wedi'i ddsbarthu'n ddiweddarach a eglurai sut y bu i'r trafodaethau a gafwyd gyda Llywodraeth Cymru yn ystod y dyddiau diwethaf wedi arwain at gyflwyno opsiynau amgen i'r Bwrdd a fyddai'n lleihau'r risg o fethu â gwario'r cyllid ychwanegol o £750K yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Nodwyd bod y Llywodraeth yn fodlon i'r Llyfrgell ddefnyddio rhan o'r grant penodol i gyllido'r diswyddiadau gwirfoddol o ganlyniad i'r broses ailstrwythuro yn ogystal â chyllido'r cynlluniau trawsnewid digidol. Mae'r meysydd hyn - ailstrwythuro a thrawsnewid digidol - yn feysydd blaenoriaeth a oedd wedi'u hadnabod yn yr Adolygiad Teilwredig.

Croesawyd y bwriadau hyn gan yr Aelodau.

Gofynnwyd i'r Tîm Gweithredol grybwyll y trefniant hwn gydag Archwilio Cymru a sicrhau eu bod yn fodlon â'r bwriad.

Bydd agweddau eraill o weithredu'r argymhellion yn cael eu cyllido o gronfeydd preifat y Llyfrgell. Fe atgoffodd y Trysorydd yr Aelodau fod y Bwrdd wedi neilltuo £1M o bunnoedd ar gyfer costau ailstrwythuro, ond gan y bydd grant ychwanegol yr Adolygiad Teilwredig yn cyllido'r diswyddiadau erbyn hyn, medrir defnyddio rhan o'r filiwn o bunnoedd i gyllido agweddau eraill o weithredu'r argymhellion. Bydd y drafodaeth hon yn parhau a bydd adroddiadau, o ran y gwariant a ddaw o'r cronfeydd preifat, yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol yn rheolaidd.

Cyfeiriwyd at y bwriad i benodi Cyfarwyddwr Hyrwyddo a Phartneriaethau; er y cytunwyd mewn egwyddor â hyn, bydd yn cael ei drafod mewn manylder yng nghyfarfod y Bwrdd ar 23 Gorffennaf a'i gymeradwyo'n derfynol.

Roedd yr Aelodau'n derbyn nad ymarferol fyddai disgwyl i holl argymhellion yr Adolygiad Teilwredig gael eu cyflawni o fewn y flwyddyn ariannol hon ac y byddai nifer ohonynt yn parhau yn ystod y flwyddyn ganlynol.

#### **2.4 Lansio Cynllun Strategol 2021 – 2026, *Llyfrgell i Gymru a'r Byd***

Adroddodd Rhian Evans bod Four Cymru wedi'u penodi i ddylunio a lansio'r Strategaeth. Dyluniwyd dogfen ddigidol, ryngweithiol ar gyfer y strategaeth lawn, gyda dogfen ddigidol ac un wedi ei argraffu ar gyfer y fersiwn cryno. Y cam nesaf fydd trefnu lansiad rhyngweithiol ym mis Mehefin, a thrafod gyda Four Cymru'r angen i greu fersiynau mewn fformatau amgen ar gyfer amryw o anghenion gwahanol.

#### **2.5 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**

Cyflwynwyd y Fframwaith i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ar 30 Ebrill, gyda'r argymhelliad ei fod yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w gymeradwyo. Fe'i cymeradwywyd gan yr Aelodau.

## **2.6 Bwrdd Rhaglen yr Archif Ddarlledu - diweddariad llafar**

Er budd yr aelodau newydd, eglurwyd llywodraethiant y Rhaglen gan Owain Roberts;

Owain Roberts yw perchennog y Rhaglen a Dafydd Tudur yw ei Gyfarwyddwr. Quentin Howard sy'n cynrychioli'r Ymddiriedolion ar y Bwrdd y Rhaglen, sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd. Mae nifer o randdeiliaid â diddordeb yn y prosiect proffil uchel cyhoeddus yma, megis BBC, ITV, S4C, Llywodraeth Cymru a Chronfa Treftadaeth Genedlaethol y Loteri, ac mae risg uchel i enw da'r Llyfrgell ynghlwm wrth y prosiect. Cytunwyd felly bod rhaid sicrhau mecanwaith priodol mewn lle o ran llywodraethiant a sicrwydd y prosiect a chytunwyd y dylai'r Llywydd, Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, Quentin Howard ag Owain Roberts drafod hyn yn dilyn y cyfarfod ac adrodd yn ôl i gyfarfod y Bwrdd ar 23 Gorffennaf.

Nodwyd bod y staff ar hyn o bryd yn hyderus y bydd 'hawl i gychwyn' y Rhaglen yn cael ei roi gan y Loteri yn ystod yr wythnosau nesaf a hynny ar ôl i'r Llyfrgell sicrhau:

- 1) Cytundeb cyfreithiol gyda S4C (cytundeb drafft yn bodoli)
- 2) Lesau gydag archifdai lleol i roi mynediad / ymestyn presenoldeb yn y corneli Clip (mae hyn ar waith)
- 3) Cytundeb cyfreithiol gyda Chanolfan Mileniwm Cymru

## **2.7 Ailstrwythuro Corfforaethol – diweddariad llafar**

Cyflwynodd Annwen Isaac adroddiad llafar gan atgoffa'r Aelodau ei bod hi wedi nodi yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr fod prosiectau trawsnewid yn cael eu sefydlu mewn 6 ardal benodol i sicrhau bod ffwythiannau a gwaith yn eistedd yn y lle cywir ac yn rhedeg yn llyfn o ran prosesau gwaith. Adroddwyd bod hyn yn digwydd a'n bod yn gobeithio y bydd y gwaith hwn yn dod i'w derfyn ddiwedd mis Mehefin.

Bydd Clerc y Bwrdd yn darparu copi o'r strwythur presennol a'r strwythur arfaethedig i'r Aelodau.

Diolchodd y Llywydd i'r Tîm Gweithredol am y gwaith o sicrhau fod y broses ailstrwythuro wedi mynd rhagddi'n dda. .

### **Adran 3 Adroddiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd**

Roedd yr adroddiad wedi'i ddsbarthu i'r Aelodau ymlaen llaw.

### **Adran 4 Cydymffurfiaeth a Risg**

#### **4.1 Cofrestr Risg Corfforaethol**

Cyflwynwyd y Gofrestr gan Emyr Phillips, a nodwyd nad oedd y Gofrestr wedi newid ers ei chyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mawrth.

Adroddwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gyfarfu'n ddiweddar, wedi gofyn i'r Tîm Gweithredol adolygu'r gofrestr erbyn i'r Pwyllgor gyfarfod nesaf ar 9 Gorffennaf. Darperir copi i Aelodau'r Bwrdd yn eu cyfarfod nesaf. ,

### **Adran 5 Materion Ariannol**

#### **5.1 Cyfrifon Rheoli Mawrth 2021**

Cyflwynwyd y Cyfrifon Rheoli gan Emyr Phillips.

Nodwyd bod cyfrifon rheoli mis Mawrth yn dangos darlun positif gyda gwarged o £362k ar gyfer arian cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 -21.

Bydd y Cyfrifon Blynyddol, sy'n cael eu paratoi ar hyn o bryd, yn cael eu cylchredeg i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystod mis Mehefin, a'u cyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ar 23 Gorffennaf.

### **GADAWODD GWENLLIAN LANSDOWN DAVIES Y CYFARFOD AM 12.35**

### **Adran 6 Adroddiadau o Bwyllgorau**

#### **6.1 a 6.4 Cofnodion Drafft Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad 19.03.21 a Diweddariad Llafar o gyfarfod 30.04.21**

Cyflwynwyd y cofnodion gan y Cadeirydd, Meri Huws, a nododd mai cyfarfod arbennig oedd hwn a drefnwyd i drafod gofynion yr Adolygiad Teilwredig a llythyr amodau Llywodraeth Cymru. Ni chafwyd unrhyw sylwadau ar y cofnodion.

Y prif feysydd a drafodwyd yng nghyfarfod 30.04.21 oedd y Cynllun Amrywedd, cynllun gweithredu a dangosyddion perfformiad, cynllun gweithredu'r Adolygiad Teilwredig, a'r bwriad i ail ymweld â chylchoedd gorchwyl pwyllgorau'r Bwrdd.

## **6.2 Cofnodion Drafft Pwyllgor Cynllunio Ariannol 22.03.21**

Nid oedd y cadeirydd yn bresennol i gyflwyno'r cofnodion, ond nid oedd gan yr Aelodau sylwadau i'w gwneud.

## **6.3 Diweddariad Llafar o Bwyllgor Archwilio a Risg 30.04.21**

Diweddarwyd y Pwyllgor gan y Cadeirydd, Janet Wademan, a amlygodd y prif faterion a drafodwyd, sef derbyn adroddiad manwl gan y Prif Weithredwr ynglŷn â phenodi gwasanaeth Effectus HR, Datganiad Llywodraethiant, 2020-21, diogeled gwybodaeth a diogeled seiber, y gofrestr risg gorfforaethol, a diweddariad gan wasanaeth archwilio mewnol Llywodraeth Cymru.

## **Adran 7 Unrhyw fater arall**

### **7.1 Cylch Busnes 2020 a 2021**

Er budd yr aelodau newydd, eglurwyd bod y Cylch Busnes yn nodi'r materion sefydlog mae'r Bwrdd yn eu trafod ymhob cyfarfod, ynghyd ag unrhyw faterion eraill, a'i fod yn cael ei ddiweddarau yn dilyn bob cyfarfod.

### **7.2 Penodi Is Gadeiryddion i Bwyllgorau'r Bwrdd**

Cytunwyd y dylai cadeiryddion y pwyllgorau sefydlog drafod gydag aelodau'r pwyllgorau ac adnabod Is Gadeirydd ar gyfer bob pwyllgor.

### **7.3 Rhaglen Hyfforddiant yr Ymddiriedolion**

Cymeradwywyd y rhaglen gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2021, ond priodol yw ail ymweld â hi yn sgil penodi pump Ymddiriedolydd newydd, ac yn sgil materion sydd wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar fel meysydd y dylid eu hadnabod fel anghenion hyfforddiant. Yn dilyn ei hadolygu a'i diweddarau, bydd y rhaglen yn cael ei gosod ar wefan y Bwrdd, a dylai'r aelodau gyfeirio unrhyw sylwadau neu argymhellion pellach ar y cynnwys at Glerc y Bwrdd.

### **7.4 Defnydd o Sêl y Llyfrgell**

Adroddwyd ar y defnydd o sêl y Llyfrgell yn unol â Rheoliad 13. Fe'i defnyddiwyd yn ddiweddar ar ddwy ddogfen gytundebol ar gyfer gwaith ar y pedwerydd adeilad.

## **8. Unrhyw fater arall**

Nododd y Prif Weithredwr fod bwriad ceisio cynnal cyfarfodydd “hybrid” o fis Gorffennaf ymlaen, a bod ymchwil ar droed i addasu’r ddarpariaeth yn Ystafell y Cyngor i alluogi medru cynnal cyfarfodydd o’r fath. Penderfynwyd, serch hynny, i barhau i gynnal cyfarfodydd pwyllgorau ar Zoom.

Gan mai dyma gyfarfod olaf Eleri Twynog Humphries fel Ymddiriedolydd, diolchwyd iddi’n ddiffuant gan y Llywydd a’r Prif Weithredwr am ei chyfraniad dros y pedair blynedd diwethaf.

**\*\* DIWEDD Y CYFARFOD \*\***